# PLANHIGION YMLEDOL

*Cwmpas y Cynllun Gweithredu:*

Mae'r Cynllun Gweithredu Pwnc (CGP) hwn yn ymwneud â'r planhigion ymledol anfrodorol a restrir isod – pedwar ohonynt yn blanhigion tir a phedwar yn blanhigion dŵr. Mae rhywogaeth anfrodorol yn golygu rhywogaeth a gyflwynwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan ddyn (yn fwriadol neu fel arall) i ardal lle nas gwelwyd cyn hynny. O fewn y DU, caiff planhigion CGB, anfrodorol eu nodi fel ffactorau heriol mewn 17 (23%) o'r Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd (CGC) a 46 (12%) o'r Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau (CGR)[1]. Mae pob un o'r planhigion canlynol yn rhai ymosodgar ac anfrodorol ac yn tueddu i dreisio fflora brodorol mewn nifer o gynefinoedd gwahanol, gan gynnwys pyllau, ffosydd, nentydd, coedlannau, tiroedd glas ac ymylon ffyrdd. Gan nad oes nemor ddim llysysyddion yn bwydo arnynt, maent yn trechu planhigion brodorol ond heb fod o fawr werth fel ffynhonnell bwyd i ffawna brodorol.

| **Planhigion Tir:** | **Planhigion Dŵr:** |
|---|---|
| Canglwm Siapaneaidd (*Fallopia japonica*) | Dail Ceiniog Arnofiol (*Hydrocotyle* ranunculoides) |
| Rhodedendron *(Rhododendron ponticum*) | Briweg y Gors Awstralia (Crassula helmsii) |
| Ffromlys Chwarennog*(Impatiens glandulifera)* | *Dail Parot (Myriophyllum aquaticum)* |
| Efwr Enfawr*(Heracleum mantegazzianum)* | Rhedyn y Dŵr *(Azolla filiculoides)* |

## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddeb Cynefinoedd[a] |
| | CAB[b] |
| | Rheoliadau CMRhRhP [c] |
| | CRhDP[d] |
| | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[e] |
| DU a Chymru | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Atodlen 9)[f] |
| | Deddf Cefn Gwlad & Hawliau Tramwy (CROW) 2000 |
| | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 |
| Gwynedd | Dim |

### 1.2 Statws yng Nghymru a Thu Hwnt

Canfuwyd mai cyflwyno rhywogaethau ecsotig, estron, yw'r bygythiad mwyaf i fioamrywiaeth ledled y byd, mae'n fwy o fygythiad na cholli cynefinoedd, datgoedwigo a llygredd. Ymlediad egsotig yw'r bygythiad trydydd peryglaf i fioamrywiaeth ym mhob GNG yng Nghymru ac i safleoedd ACA, er nad yw Cymru yn dioddef difrod ecolegol i'r fath raddau â'r hyn a achosir gan rywogaethau estron yn Hawaii ac Awstralia, er enghraifft. Fodd bynnag, o ganlyniad i weithredoedd bwriadol neu anfwriadol dyn, mae rhywogaethau estron wedi eu rhyddhau yng nghefn gwlad Cymru ac mae rhai ohonynt yn wladychwyr ymosodol gyda'r grym i ddisodli fflora, ffawna ac ecosystemau brodorol.

[a] Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar 21 Mai 1992 ynglŷn â gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt yr UE.

[b] Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau grwpiau fel bo angen er mwyn atal rhywogaethau estron (h.y. anfrodorol) sydd yn bygwth ecosystemau, cynefinoedd neu rywogaethau rhag sefydlu ac i'w rheoli neu eu difa

[c] Confensiwn Masnach Rhyngwladol Rhywogaethau o Ffawna a Fflora mewn Perygl: rheoliadau CE 338/97.

[d] Confensiwn Rhyngwladol Diogelu Planhigion - yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau grwpiau i reoli plâu o blanhigion a chynnyrch planhigion a'u rhwystro rhag lledaenu ac ymsefydlu ar draws ffiniau cenedlaethol, a sicrhau y caiff mesurau i'r perwyl hwn eu cydlynu'n ofalus.

[e] Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl ddyfroedd arfordirol yn cyrraedd "statws da" (yn gemegol ac yn ecolegol) erbyn 2015.

[f] O dan adran 14(2) o'r Ddeddf, mae'n drosedd "plannu unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodlen 9, rhan II, neu achosi iddynt dyfu mewn unrhyw fodd yn y gwyllt" .

### 1.3 Statws yng Ngwynedd

Mae'r rhododendron wedi ymledu dros rannau helaeth o Barc Cenedlaethol Eryri ac mae hefyd yn amlwg iawn mewn llawer ardal yng Ngwynedd, yn enwedig coedlannau megis Coed Nursery yn Nhremadog, yn ogystal â rhostiroedd a glaswelltir. Mae canglwm Siapaneaidd hefyd yn bresennol ledled Gwynedd ac mae'n broblem ddifrifol ar ochrau ffyrdd ac ar lannau afonydd, megis glannau Afon Llyfni. Mae'r ffromlys chwarennog a'r efwr enfawr hefyd yn achosion pryder cynyddol ar lannau llawer o ffosydd, afonydd a nentydd Gwynedd.

Cafwyd adroddiadau bod ceiniog y gors i'w gweld yn Llangybi a gwelwyd dail parot a rhedyn y dŵr ar Ynys Môn. Canfuwyd briweg y gors Awstralaidd ym Mhenrhyndeudraeth ac mae hyn yn fygythiad enfawr i ecosystemau dŵr a slaciau twyni tywod yn arbennig. Un gofid enfawr yw na lwyddwyd i ladd hwn yn llwyr mewn unrhyw fan lle'r ymsefydlodd. Mae presenoldeb y rhywogaethau hyn mewn ardaloedd cyfagos, ynghŷd â'r ffaith eu bod yn ymledu mor rhwydd, yn golygu bod y planhigion hyn yn fygythiad difrifol yng Ngwynedd hefyd.

## 2. FfACTORAU SY'N ACHOSI YMLEDIAD Y PLANHIGION HYN YNG NGWYNEDD

- Planhigion dieithr yn cael eu cario (egin, blagur neu ddarnau) ar esgidiau, mewn ceir neu gyda nwyddau a werthir. Mae gan sefydliadau yn y sectorau hyn, yn enwedig gerddi botanegol a chanolfannau garddio masnachol, ddyletswydd i atal rhywogaethau o blanhigion ymledol rhag dianc a gwasgaru. Fodd bynnag mae bron yn amhosibl sefydlu bioddiogelwch sydd yn berffaith ddiogel.
- Eu gwerthu fel planhigion addurnol mewn canolfannau garddio a / neu eu plannu'n fwriadol mewn gerddi e.e. fel gwrychoedd neu blanhigion deniadol mewn pyllau. Gall rhywogaethau sydd yn dianc o erddi hefyd goloneiddio mewn ardaloedd newydd, ac ambell dro cânt eu lledaenu'n anfwriadol gan bobl e.e. glanhau pyllau addurnol ac acwaria a chael gwared â phlanhigion dros ben trwy eu taflu yng nghefn gwlad. Gall gweithgareddau fel trosglwyddo grifft – heb unrhyw fwriad gwael – hefyd hyrwyddo lledaeniad y planhigion ymledol hyn.
- Diffyg gelynion naturiol penodol megis anifeiliaid sydd yn pori a phathogenau.
- Gwasgaru hadau mewn afonydd. Mae mwyafrif y planhigion ymledol a restrwyd unai yn blanhigion dŵr neu yn gwasgaru eu hadau gyda chymorth dyfrffosydd – trwy gario hadau aeddfed a / neu rannau llystyfol y planhigyn i lawr gyda llif y dŵr.
- Symud pridd a / neu ddeunydd wedi ei ddifwyno oddi ar safleoedd sydd wedi eu heffeithio. Gall peiriannau sydd yn symud gario darnau bach o blanhigyn ymledol gyda hwy ac mae hyn yn ddigon i halogi safleoedd o'r newydd – mae llysiau'r dial yn gallu adffurfio o'r darn lleiaf o'r fam blanhigyn.
- Symud peiriannau ac offer wedi eu difwyno rhwng systemau dŵr e.e. cychod, offer pysgota.
- Gwaredu anaddas a / neu anghyfreithlon o doriadau, yn enwedig canglwm Siapaneaidd e.e. taflu sbwriel.
- Gweithgareddau sydd yn aflonyddu ar lystyfiant a'r pridd oddi tano. Mae canglwm Siapaneaidd a'r rhododendron fel ei gilydd yn hoffi tir yr ymyrrwyd ag ef lle mae'r llystyfiant brodorol wedi cael ei symud mewn rhyw fodd gan roi cyfle iddynt goloneiddio yn y gorchudd planhigion
- Effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd. Mae amodau fel tymheredd uwch, crynodiadau carbon deuocsid uwch a thywydd mwy stormus yn fwy ffafriol i rywogaethau anfrodorol e.e. mae gaeafau cynhesach yn gymorth i'r rhedyn dŵr gynyddu.

## 3. *CGR / CGC* PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Coetiroedd derw yr ucheldir, Coetiroedd gwlyb, Dolydd gwair a phorfeydd yr iseldir, Gwlyptiroedd yr iseldir, Coridorau afonydd, Llynnoedd, pyllau a ffosydd.

## 4. GWEITHGAREDDAU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Deddfwriaeth gyfredol a mesurau ataliol

- Yn achos safleoedd y bwriedir eu datblygu (e.e. cynlluniau adeiladu ffyrdd), rhoddir arweiniad i gontractwyr er mwyn rhwystro planhigion ymledol rhag sefydlu neu ehangu.
- Mae'n drosedd " plannu rhai rhywogaethau yn fwriadol neu achosi iddynt dyfu yn y gwyllt", sef y planhigion a restrir yn Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt & Chefn Gwlad, gan gynnwys canglwm Siapaneaidd a'r efwr enfawr. Mae'n drosedd "*plannu neu annog"* tŵf planhigion llysiau'r dial a'r efwr enfawr. Mae hefyd angen trwydded i gael gwared â thoriadau o'r planhigion hyn sydd wedi eu dosbarthu fel 'gwastraff a reolir'.
- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2003) wedi cyhoeddi dogfen ar reoli chwyn ymledol mewn dŵr ffres neu gerllaw iddo i'w defnyddio gan reolwyr tir a gan y cyhoedd.

### 4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Mae wardeniaid Cyngor Gwynedd wedi rheoli planhigion ymledol mewn GNG. Mae prosiect 3-blynedd ar y cyd rhwng CCGW a Chyngor Gwynedd wedi ariannu'r gwaith o chwistrellu canglwm Siapaneaidd ar nifer o GNG ac ar hyd llwybrau'r Lôn Las, sef cyfanswm o 0.4 ha. Daw'r prosiect hwn i ben yn 2006.
- Mae rhododendron yn drwchus ar ran eang o Lon Las Ogwen ac mae wardeniaid Cyngor Gwynedd yn gobeithio eu dwyn dan reolaeth fel rhan o gynllun grant newydd sef Cynllun Grant Coetiroedd.
- Mae'r ffromlys chwarennog wedi ei godi a'i clirio gan wardeniaid gwirfoddol yng Nghoetir Coed Doctor.
- Mae wardeniaid CCGW wedi dwyn llysiau'r dial dan reolaeth yn SoDdGA Rhosgyll Fawr a Chors Gyfelog, ac yn ACA Corsydd Eifionydd.
- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru hefyd wedi chwistrellu llysiau'r dial ar hyd Afon Ogwen.
- Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn darparu grantiau ar gyfer rheoli coetiroedd, gan gynnwys rheoli canglwm Siapaneaidd, ffromlys chwarennog a rhododendron.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn canolbwyntio'u hymdrechion ar ddifa rhododendron yn Nant Gwynant.
- Mae grantiau ar gael dan Tir Gofal (difa rhododendron y tu allan i goetiroedd £1500/ha un gyfradd, difa canglwm Siapaneaidd & ffromlys chwarennog £750/ha un gyfradd. Amcangyfirir bod hyn yn 70% o'r gwir gostau) a chynlluniau'r AAS (50% grant cyfalaf tuag at gostau difa canglwm Siapaneaiddd a'r ffromlys chwarennog).
- Mae partneriaeth Brydeinig yn cynnwys Asiantaeth Datblygu Cymru, Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol De Orllewin Lloegr, Dyfrffyrdd Prydain, Asiantaeth yr Amgylchedd, Rhwydwaith Rheilffyrdd a Defra wedi sefydlu prosiect ymchwil gwerth £500,000 i'w gwblhau gan CABI Biowyddoniaeth, i ymchwilio i ddulliau naturiol o reoli Llysiau'r Dial.

### 4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Arolygir safleoedd gan ymgynghorwyr Cyngor Gwynedd, cyn cychwyn datblygiadau ac wedi eu cwblhau, er mwyn canfod presenoldeb planhigion ymledol, neu lygriad o'u herwydd a datblygu rhaglenni ddifa fel bo angen.

- Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn monitro'r gwaith rheoli a gwblheir yn yr holl goetiroedd sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol ac yn asesu llwyddiant y gwaith o reoli planhigion ymledol sydd yn achosi problemau.
- Bydd y prosiect 3-blynedd a darparwyd gan Interreg (i'w gyflawni ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prifysgol Cymru Bangor, Trinity, Duchas a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) yn canolbwyntio ar ymarfer gorau ym maes rheoli rhododendron yng ngogledd orllewin Cymru ac yn Iwerddon.

## 5. AMCANION CYNLLUN GWEITHREDU

1. Lleihau a rheoli lledaeniad planhigion ymledol anfrodorol sydd yn niweidiol i ecoleg yng Ngwynedd.
2. Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am effeithiau niweidiol y rhywogaethau hyn ar gynefinoedd naturiol, a chynyddu gwybodaeth am y dulliau o reoli.
3. Cydweithio'n strategol gydag eraill sydd yn gweithio yn yr un maes

## 6. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

| **Côd** | **Camau** | **Partner(iaid)**[9] |
|---|---|---|
| **Polisi a deddfwriaeth** | | |
| 1 | Sicrhau bod y broses cynllunio o gymorth i reoli planhigion ymledol ar safleoedd datblygu<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG*** |
| 2 | Gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn atal lledaeniad mecanyddol planhigion ymledol<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AAC**, *CG*, *CC* |
| 3 | Ystyried datblygu gweithgor ar y cyd gydag APCE i gydlynu rheolaeth effeithiol dros blanhigion problemus ledled Gwynedd ac Eryri<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2007 | ***CG***, *APCE*, *AAC*, *CCGC*, *CGSGL*, *CC*, *YG* |
| 4 | Sicrhau y caiff rheolau trawsgydymffurfio dan y Taliadau Fferm Unigol eu gorfodi o safbwynt rheoli rhywogaethau ymledol a niweidiol o blanhigion (elfen CAAD C)<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **LlCC** |
| **Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd** | | |
| 5 | Gweithio'n strategol, gyda chydweithrediad rhwng *CG* ac *AAC* er mwyn parhau i reoli a / neu ddifa canglwm Siapaneaidd a phlanhigion eraill sydd yn achosi problemau ar lannau'r afon Ogwen<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AAC**, *CG* |
| 6 | Gweithio'n strategol, gyda chydweithrediad rhwng *CG*, *AAC* a *CGSGLl* er mwyn parhau i reoli a / neu ddifa llysiau'r dial a phlanhigion eraill sydd yn achosi problemau yn nalgylchoedd afonydd Seiont, Gwyrfai a Llyfni<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***GC***, *AAC*, *CGSGLl* |
| 7 | Parhau i ddifa ar dir Cyngor Gwynedd, gan gynnwys GNL, Lôn Las, ac ar ymylon y ffyrdd sydd dan awdurdod y Cyngor.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CG***, Partneriaid perthnasol |
| 8 | Parhau i ddifa planhigion ymledol ar SoDdGA, ACA a GNG trwy gytundebau rheolaeth a / neu reolaeth gweithredol a drefnir gan wardeniaid CCGC<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | ***CCGC***, Partneriaid perthnasol |

[9] Dangosir y prif bartner ar gyfer y cam hwn gyda phrint trwm, gweler adran 7.2 am eglurhâd ar y byrfoddau.

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Canfod enhreifftiau newydd a'u difa os yn ymarferol bosibl.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AAC**, CG, CCGC |
| **Ymgynghorol** | | |
| 10 | Darparu cyngor ymarfer gorau ar reoli planhigion ymledol ar gyfer perchnogion, rheolwyr a datblygwyr tir.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AAC**, CG, CC |
| **Arolygon, ymchwil a monitro** | | |
| 11 | Arolygu safleoedd cyn ac yn dilyn datblygu er mwyn monitro os oes planhigion ymledol yn sefydlu neu yn lledaenu.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **CC**, AAC |
| 12 | Gwirio achosion newydd o blanhigion ymledol yn ymsefydlu, a chofnodi ar y bas data.<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AAC**, CG, CC |
| 13 | Cydlynu'r holl gofnodion sydd gennym o safleoedd yng Ngwynedd lle gwyddom fod planhigion ymledol (y wybodaeth i'w storio ar fas data) a pharhau i ddiweddaru gyda chofnodion newydd, yn cynnwys y rhai a dderbynnir gan y cyhoedd yn gyffredinol.<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008 | **CG**, CCGC, APCE, AAC |
| 14 | Casglu rhestr o bob planhigyn ymledol anfrodorol yng Ngwynedd<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008 | **CG**, Partneriaid perthnasol |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 15 | Annog y cyhoedd yn gyffredinol i gofnodi safleoedd lle ceir planhigion ymledol trwy gynhyrchu cardiau cofnodi a rhyddhau datganiadau i'r wasg leol yn achlysurol<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008 | **GC**, AAC, APCE |
| 16 | Codi ymwybyddiaeth o effeithiau planhigion ymledol trwy ddosbarthu cyfarwyddyd AAC ar eu rheoli i ddatblygwyr, contractwyr a rheolwyr tir<br>TARGED/AMSERLEN: Cyfredol | **AAC**, CC, CC |
| 17 | Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol sydd yn achosi problemau ac annog defnyddio planhigion cynhenid mewn canolfannau garddio trwy ddosbarthu cyfarwyddyd a darparu cyngor.<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2007 | **CG**, AAC, CCGC, YBGCC |

## 7. PARTNERIAID & CHYFLEOEDD

### 7.1 Prif Bartner ar gyfer CGC

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AAW)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGW)

Cyngor Gwynedd (CG)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC)

Comisiwn Coedwigaeth (CC)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Cymdeithas Genweirio Seiont, Gwyrfai a Llyfni (CGSGLl)

Canolfan Ecoleg a heidroleg (CEH)

Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Grŵp Ymgynghorol Amaeth a Bywyd Gwyllt Cymru (GYABG Cymru)

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (UCA Cymru)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

### 7.3 Cyfleoedd

Perchnogion a rheolwyr tir, Canolfannau garddio, Gwirfoddolwyr.

## 8. CYDNABYDDIAETH

Prif awdur: Dave Thorpe (AAC)
Ymgynghorwyr : Mark Balaam (CG), Rhys Roberts (CG), Karen Rawlins (CCGW), Les Colley (CCGW), Peter Jones (CC), Aisling Carrick (LlCC), Stephen Chambers (LlCC)

## 9. Byrfoddau

CGP: Cynllun Gweithredu Pwnc, CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, CAB: Convensiwn ar Arallgyfeirio Biolegol, CMRhRhP: Confensiwn Masnach Rhyngwladol Rhywogaethau mewn Perygl, CRDP: Confensiwn Rhyngwladol Diogelu Planhigion, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, GNG: Gwarchodfa Natur Genedlaethol, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

---

[1] Callaghan, D. 2003. Gofynion ymchwil rhywogaethau anfrodorol ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Prydain. Adroddiad a baratowyd gan Just Ecology ar gyfer y JNCC (www.ukCGB.org.uk).